

## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2012

**PRESENNOL** : **Aelodau Annibynnol**

Mr Michael Wilson (Cadeirydd)  
Mr Islwyn Jones (Is-gadeirydd)  
Mr Leslie Lord

### **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes  
Y Cynghorydd Ieuan Williams

**WRTH LAW** : Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (RMJ)  
Swyddog Pwyllgor (JMA)

**YMDDIHEURIADAU** : Ms Denise Harris Edwards, Mrs Dilys Shaw.

Cyn cychwyn ar Raglen y cyfarfod, darllenodd y Cadeirydd lythyr a dderbyniodd gan y Swyddog Monitro yn nodi ei rhesymau dros dynnu'n ôl o unrhyw ymwneud pellach â'r mater hwn. Rhoes y Cadeirydd groeso i'r Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro a fyddai'n rhoi Cyngor Cyfreithiol yn ôl yr angen i'r Pwyllgor.

### **1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau neu Swyddogion.

### **2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2012 fel rhai cywir gyda chywiriad ar Dudalen 9 (vii) y fersiwn Gymraeg a ddylai ddarllen "yr ymgeisydd wedi **wynebu costau** cyfreithiol sylweddol".

### **3 CWYN YN ERBYN CYNGHORYDD**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad a baratowyd gan y Swyddog Monitro. Yn yr adroddiad, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cwyn yr oedd y Cynghorydd Hefin Thomas wedi'i chyflwyno i OGCC - cwyn a oedd yn ymwneud ag ef ei hun yn dweud ei fod efallai wedi methu cydymffurfio gyda chôd Ymddygiad y Cyngor Sir ar gyfer Aelodau pryd y'i cafwyd yn euog o drosedd ar 12 Ebrill 2011 ac i benderfynu a ddylid cynnal gwrandawriad lleol mewn perthynas â'r mater.

Yn ei hadroddiad, roedd y Swyddog Monitro yn cynghori bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau, yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) 2001, benderfynu **naill ai** :

- (a) nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiant ar ran y Cynghorydd Thomas i gydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir; **neu**
- (b) y dylid rhoddi i'r Cynghorydd Thomas y cyfle i wneud sylwadau, naill ai ar lafar neu ar bapur, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ynghyd ag unrhyw honiad ei fod, efallai, wedi methu â chydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir.
- 3.1 Oni bai fod adroddiad OGCC yn rhyddhau'r Cynghorydd Thomas o unrhyw fai, rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyfeirio'r mater i wrandawriad lleol.

Dyweddod y Swyddog Monitro:-

- Fod y dyfyniad perthnasol ym mharagraff 45 adroddiad OGCC "*My provisional finding was that there was evidence that Councillor Thomas may have breached the Code of conduct for Members in relation to paragraph 6(1)(a) of that Code in that he incurred a criminal conviction on the 14<sup>th</sup> April 2012...*"
- *Mae gweddill Adroddiad OGCC yn egluro pam y penderfynodd gyfeirio ei adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ond nid yw'n cael effaith ar ei gasgliad dros mewn perthynas â thorri'r Côd;*
- *Felly, mae OGCC wedi canfod tystiolaeth o fethiant ar ran y Cynghorydd Thomas i gydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir. O'r herwydd, rhaid i'r Pwyllgor Safonau wneud penderfyniad yn unol â pharagraff 3(b) uchod.*

Dyweddod y Cadeirydd wrth yr Aelodau y dylent ystyried yn ofalus iawn a oeddynt yn cytuno gyda naill ai opsiwn (a) neu (b) uchod.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Gareth Parry, y Cyfreithiwr a oedd yn cynrychioli'r Cynghorydd Thomas i annerch y cyfarfod. Cadarnhaodd Mr Parry ei fod wedi cynrychioli'r Cynghorydd Thomas mewn perthynas â'r Achos Troseddol a'r Gwyn i'r Ombwdsmon. Yn wyneb yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog Monitro, ychwanegodd ei fod wedi cynghori ei gleient y dylid trosglwyddo'r mater hwn i'r Pwyllgor Safonau ar gyfer gwrandawriad. Yn ei farn ef, ychydig iawn o effaith fyddai unrhyw ddadl y byddai ef yn ei chyflwyno yn ei chael ar benderfyniad y Pwyllgor a chadarnhaodd y byddai'n dymuno annerch y Pwyllgor Safonau mewn unrhyw wrandawriad a gynhelir yn y man.

Ymneilltuodd y Pwyllgor Safonau i sesiwn breifat i ystyried eu penderfyniad.

Dychwelodd y Pwyllgor Safonau i sesiwn agored a chyhoeddodd y Cadeirydd bod yr Aelodau wedi

**PENDERFYNU** bod y Pwyllgor o blaid cynnal gwrandawriad lleol i'w gynnal ar ddyddiad cyfleus yn y dyfodol agos.

**MR MICHAEL WILSON  
CADEIRYDD**